

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-19-02(p.2)

Dyddiad:	6 Tachwedd 2002
Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Teitl:	Tair Strategaeth Gofal Iechyd at ddiben ymgynghori <ul style="list-style-type: none">● Ffyrdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru;● Moddion i Lwyddo: Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru;● Dyfodol Gwasanaethau Optometrig mewn Gofal Sylfaenol yng Nghymru

Diben

1. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor am eu sylwadau ar Ofal Deintyddol Sylfaenol, Fferylliaeth a Gwasanaethau Optometrig mewn Gofal Sylfaenol sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori tan 31 Rhagfyr 2002.

Y Cefndir

2. Mae'r strategaethau'n deillio o'r ymrwymiad a roddwyd yng Nghynllun y GIG Cymru i gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol gofal sylfaenol. Mae'r strategaethau wedi'u seilio ar y Cynllun Gweithredu Gofal Sylfaenol a'r bwriad yw datblygu rôl y proffesiynau hynny yn y dyfodol ym maes Deintyddiaeth, Fferylliaeth ac Optometreg dros y deng mlynedd nesaf i ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn gofal sylfaenol. Cyhoeddwyd y strategaethau at ddiben ymgynghori ym mis Medi 2002 ac fe'u dosbarthwyd yn eang i'r proffesiynau ac i gyrff perthnasol eraill. Mae copïau o'r strategaethau ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

CRYNODEB O'R STRATEGAETHAU

Ffyrdd i Ddiwygio: Strategaeth ar gyfer Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru

3. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, yn trafod cyflwr iechyd geneuol y wlad, y gwasanaethau deintyddol a ddarperir ar hyn o bryd yng Nghymru a goblygiadau'r ffactorau hyn o ran dylanwadu ar newid. Mae'n ystyried y broblem o sicrhau gweithlu deintyddol, gan ymdrin â hyfforddi, recriwtio a chadw gweithwyr, ynghyd â materion yn ymwneud â mynediad, ansawdd a rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Mae'r strategaeth yn ystyried sut y gellid newid y sefyllfa ac yn cydnabod yr angen i edrych ar ffyrdd newydd o gomisiynu Gofal Deintyddol Sylfaenol ac o dalu ymarferwyr deintyddol. Mae'r broses gymhleth o ddiwygio'r dull o ddarparu gofal deintyddol sylfaenol yn her fawr ac mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i gyflwyno newid gyda chefnogaeth lawn y proffesiwn..

4. Dyma nôd cyffredinol y strategaeth:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ac wrth wella iechyd pawb yn y wlad, blaenoriaethu'r gwaith o wella iechyd y rhai sydd gwaetha'u byd, a phlant yn benodol.
- Hybu mynediad i wasanaethau ar gyfer cleifion a dull integredig o ddarparu gwasanaethau
- Sicrhau bod y ddarpariaeth leol yn hyblyg
- Rhoi ystyriaeth tymor byr, canolig a hir dymor i gynlluniau sy'n ymwneud â'r gweithlu deintyddol
- Creu cyswllt gyda gwaith y Cynllun Datblygu Rheolaeth Technoleg Gwybodaeth, gan nodi ffordd ymlaen ar gyfer datblygu Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg mewn gofal deintyddol sylfaenol
- Creu cyswllt gyda'r Fframwaith ar gyfer Gwella Parhaus sydd wedi'i ddatblygu gan Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Reoli Perfformiad.

5. Yn y tymor byr byddai'r strategaeth yn ystyried:

- cynnal cynllun peilot/profi modelau arloesol o ddarparu gofal deintyddol yng Nghymru. Cynnal cynllun peilot i brofi dulliau newydd drwy ddefnyddio'r PDS fel un arf.
- cydnabod bod angen diwygio'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol (GDS) a bod yr angen am ddiwygio'r system daliadau yn greiddiol yn hyn o beth.
- comisiynu astudiaeth ymarferoldeb neu gynnal gwerthusiad o'r posibilrwydd o ehangu nifer y myfyrwyr deintyddol a nifer y deintyddion sy'n cael hyfforddiant. Bydd angen hefyd ystyried datblygu cynlluniau addysgol ymhellach mewn lleoliadau gofal sylfaenol.
- ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Lleol ar gyfer Iechyd y Geg
- sicrhau bod mwy o driniaeth ar gael yn achlysurol
- hysbysu Galw Iechyd Cymru mai nhw fydd yn gyfrifol am ddarparu llinellau cymorth deintyddol

i bob awdurdod iechyd (Un o'n nodau fydd sefydlu system gyffredinol ledled Cymru i reoli mynediad at wasanaethau deintyddol brys a fydd ar gael i bob claf p'un a ydynt wedi cofrestru ai peidio

- adolygu'r strwythur cynghori ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol deintyddol yng Nghymru
- cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol gan sicrhau nad yw'r Gwasanaeth hwn yn cael ei ddarnio
- ailsefydlu Cyd-bwyllgor Negydu Cymru i drafod materion sy'n effeithio ar y gwasanaethau cyflogedig yng Nghymru gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain
- trafod gyda'r proffesiwn y posibilrwydd o ddatblygu rhaglen hyfforddi ffurfiol ar gyfer Addysgwyr Iechyd y Geg
- cydnabod yr angen i wella'r seilwaith TG mewn gofal deintyddol sylfaenol o fewn Cynllun Datblygu Cenedlaethol Rheolaeth Technoleg Gwybodaeth Cymru.
- Parhau i ddatblygu a meithrin Cynllun Deintyddol Cymru sy'n cymhell deintyddion i weithio yng Nghymru trwy gynnig grantiau iddynt.

6. Yn y tymor hwy byddai'n rhaid i'r broses o newid sy'n cael ei disgrifio yn y strategaeth hon arwain at newid mawr mewn diwylliant a fyddai'n golygu:

- datganoli cyllid i lefel leol a'i ddefnyddio mewn ffordd sydd wedi'i dargedu'n fwy i gyflawni amcanion y penderfynnir arnynt yn lleol, gyda mesurau diogelwch, os bydd angen, i sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar ddeintyddiaeth.
- delio â'r broblem o sicrhau bod yr arian yn cael ei ddsbarthu'n deg, ac, at y dyfodol, rheoli mynediad i drefniadau contractio'r GIG
- sicrhau bod pob gwasanaeth yn cyfrannu at yr amcan o wasanaeth deintyddol y GIG sy'n gwasanaethu'r boblogaeth yn llawn
- adolygu'r cysyniad o gofrestru gydag Ymarferydd Deintyddol Cyffredinol yng ngoleuni'r fframwaith newydd lleol
- sicrhau na fydd unrhyw newid yn effeithio'n andwyol ar unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y GIG neu sydd wedi'i gontractio iddo.

Moddion i Lwyddo: Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru

7. Mae'r Strategaeth Fferylliaeth wedi'i seilio ar weledigaeth syml o'r dyfodol, sef darparu gwasanaeth sydd ar gael yn hawdd i bawb, wedi'i deilwra i anghenion unigol, sy'n effeithlon, wedi'i gydgysylltu â gwaith pobl broffesiynol eraill, ac sydd cystal os nad yn well na'r gorau yn y DU. Gan weithio gydag eraill, bydd y gwasanaeth fferylliaeth yn defnyddio'i arbenigedd i helpu pobl:

i gadw'n iach

i reoli anhwylderau cyffredin

i wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau a ragnodwyd, ac

i reoli anghenion hir dymor o ran meddyginaethau

8. Er mwyn cyflawni hyn mae angen gweithredu mewn tair ffordd gyffredinol, sef:

- Ailgynllunio Gwasanaethau ar gyfer Cleifion
- Gwella Ansawdd yn Barhaus
- Gwneud y Gorau o'r Adnoddau

9. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod yn rhaid i Fferyllwyr bontio rhwng meddygaeth uwchdechnolegol ac angen yr unigolyn. I wneud hyn, mae angen ailgynllunio llawer o agweddau ar ddarparu gwasanaethau i sicrhau y gellir trin pob claf fel unigolyn, sydd ag amgylchiadau, anghenion a dewisiadau unigryw. Rhan o ddiben y strategaeth hon yw sicrhau y gellir gwneud y gorau o'r hyn fydd gan dechnolegau newydd i'w gynnig, a rhoi mwy o gymorth i bobl ofalu amdanynt eu hunain.

10. Mae'r strategaeth yn cyfeirio fferylliaeth at sicrhau ei bod yn mabwysadu'r arferion gorau ym mhob maes, a bod ganddi strwythurau digonol yn eu lle i sicrhau ansawdd. Mae hyn yn cynnwys denu a chadw'r staff gorau yng Nghymru, monitro'n ofalus y ffordd y caiff meddyginaethau eu defnyddio a llwyddo i sylwi ar rwystrau o'r dechrau. Mae gan fferylliaeth lawer i'w gynnig i'r GIG ac i bobl Cymru. Mae angen peth newid radical i wireddu'r potensial yn llawn, fel y mae'r strategaeth yn ei amlinellu. Mae 50 o bwyntiau gweithredu yn y strategaeth er mwyn ceisio sicrhau bod y gwasanaeth yn symud yn ei flaen i ddod â gwasanaeth fferyllol i Gymru sydd cystal os nad yn well na'r hyn sydd unman arall yn y DU. Ceir crynodeb o'r camau gweithredu yn Atodiad A.

Dyfodol Gwasanaethau Optometrïg o fewn Gofal Sylfaenol

11. Mae'r strategaeth yn rhoi'r fframwaith a fydd yn sail i'r ffordd y caiff gwasanaethau optometrïg cymunedol eu datblygu yn y dyfodol. Mae optometryddion yn gweithio'n bennaf mewn practisiau yn y gymuned ar lefel gofal sylfaenol, er bod rhai'n gweithio mewn ysbytai ochr yn ochr ag offthalmolegwyr yn y sector gofal eilaidd. Mae optometryddion cymunedol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys profion ac archwiliadau llygaid, naill ai drwy'r Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol neu'n breifat. Maent hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau o fewn gofal sylfaenol, fel arfer mewn cydweithrediad â meddygon teulu ac offthalmolegwyr, er mwyn sgrinio ar gyfer clefydau'r llygaid megis glawcoma a retinopathi clefyd y siwgr. Gall y tîm gofal ddatblygu'r rôl hon ymhellach i wella a chydlynu gwasanaethau ar gyfer cleifion sydd â phroblemau gweledol, yn ogystal ag ar gyfer y rheini sydd â golwg diffygiol neu â nam ar eu golwg.

12. Nid oes prinder o optometryddion yng Nghymru er ei bod yn anodd eu denu i weithio mewn rhai rhannau o'r wlad. Mewn rhai ardaloedd, nid oes gwasanaethau optometrïg yn y gymuned. Y rhain yw'r ardaloedd lle nad yw'n economaidd ymarferol sefydlu practis a bydd angen mynd i'r afael â'r problemau, ar y cyd â phroffesiynau eraill, er mwyn cynnal y gwasanaeth hwn yn ariannol. Mae'r strategaeth yn awgrymu y byddai sefydlu Canolfannau Adnoddau Gofal Sylfaenol sy'n integreiddio gwaith y proffesiynau yn ffordd bosibl o ddatrys y broblem hon.

13. Mae'r strategaeth hefyd yn rhoi sylw i Gynllun Gwasanaethau Golwg Diffygiol ar gyfer Cymru Gyfan a gaiff ei sefydlu'n ddiweddarach eleni ac a fydd yn helpu optometryddion achrededig i ddarparu mwy o wasanaethau yn y gymuned i bobl â golwg diffygiol. Yn ogystal, mae datblygu Gwasanaeth Sgrinio Cymru Gyfan ar gyfer Retinopathi Clefyd y Siwgr eleni yn rhoi cyfle i optometryddion gymryd rhan ynddo.

14. Mae'r strategaeth yn dadlau y bydd datblygu gwasanaethau optometrïg yn gwella'r gwasanaeth iechyd gan dargedu anghenion yr unigolyn, nid yn unig drwy drin cleifion a'u cyfeirio at yr arbenigwyr priodol ond hefyd drwy atal clefydau'r llygaid.

AMSERLEN

15. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2002.

YSTYRIAETH BELLACH

16. Yn dilyn canlyniad yr ymgynghori, caiff y strategaethau eu cwblhau a chaiff cynllun gweithredu ei baratoi ar gyfer pob un ohonynt.

CANLYNIADAU ARIANNOL

17. Ar hyn o bryd, mae'r strategaethau'n destun ymgynghori ac nid oes unrhyw ymrwymïadau o ran darparu adnoddau. Yn dilyn yr ymgynghoriad, y cam nesaf fydd paratoi cynlluniau gweithredu, gan gynnwys ystyried materion sy'n ymwneud ag adnoddau.

CYDYMFFURFIO

18. Mae Adran 1 a 2 o Ddeddf y GIG 1977 yn ymdrin â phwerau sy'n ymwneud â hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru a darparu gwasanaethau yn gyffredinol. Mae'r Ddeddf hon wedi'i dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

CAMAU I'W CYMRYD

19. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei sylwadau ar y tair strategaeth sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddog Cyswllt: Rob Heaton-Jones, Tîm Strategaeth a Chynllunio Iechyd a Lles

Ffôn: 029 2082 3286

Moddion i Lwyddo: Strategaeth ar gyfer Fferylliaeth yng Nghymru - Pwyntiau Gweithredu

- 1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu adolygiad eang a chynhwysol o rôl, trefniadaeth a natur fferylliaeth gymunedol yn y dyfodol yng Nghymru.
- 2 Bydd Atebion Iechyd Cymru yn meintoli cyfaint y presgripsiynau argyfwng a dadansoddi'r amrediad a ddosberthir erbyn Rhagfyr 2002
- 3 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu astudiaeth o anghenion cleifion a phroffesiynol am wasanaethau allan-o-oriau erbyn Mawrth 2003.
- 4 Mae gweithredu 'Informing Healthcare' yn hanfodol i gyflwyniad y Strategaeth hon; archwilir y goblygiadau ar gyfer fferylliaeth erbyn Rhagfyr 2002.
- 5 Dylid sicrhau gweithrediad "Medusa" ar brosiect cod cyffuriau cyffredin erbyn Mawrth 2003.
- 6 Mynediad fferyllwyr i fewnrwyd GIG a chofnodion electronig cleifion i'w gynnwys yn y rhaglen ar gyfer datblygu technoleg gwybodaeth a rheolaeth yn GIG Cymru.
- 7 Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth Cymru i sicrhau fod hyfforddiant digonol mewn sgiliau gwerthuso beirniadol ar gael i fferyllwyr yng Nghymru.
- 8 Caiff gofynion gwybodaeth electronig fferylliaeth ei adolygu yng ngoleuni gweithrediad 'Informing Healthcare', a bydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol yn y maes hwn.
- 9 Pwyllgor Datblygu Proffesiynol Fferylliaeth Cymru i ymchwilio cyfleoedd i ymelwa ar eDdysgu gyda Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr (RPSGB).
- 10 Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi cyfarwyddyd i hwyluso cyflwyno dosbarthu pecyn gwreiddiol yn 2002.
- 11 Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda Fferylliaeth Gymunedol Cymru a gwasanaethau fferylliaeth ysbyty i ymchwilio cysylltiadau posibl gyda Galw Iechyd Cymru.
- 12 Y materion hyn (e-Fferylliaeth) i gael eu trafod fel rhan o'r Adolygiad o Fferylliaeth Gymunedol yng Nghymru (gweler Gweithredu 1).
- 13 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda chyrrff cynrychioli Fferylliaeth i ddynodi a chael gwared â'r rhwystrau i arloesedd gwasanaeth, ac ysgogi datblygu modelau newydd o gyflwyno gwasanaeth.

- 14 Caiff Byrddau Iechyd Lleol a diddordebau lleol eu hannog i weithredu arfer gorau mewn cyflwyno gwasanaeth fferylliaeth, ac i arbrofi gyda modelau newydd fel sy'n briodol, yn cynnwys ffyrdd o ymgorffori arbenigedd fferylliaeth gymunedol yn well mewn i waith y tîm gofal iechyd sylfaenol ehangach.
- 15 Dylid datblygu cynllun gweithredu dosbarthu pecyn gwreiddiol a dylai gynnwys safoni i gyflenwad 28 diwrnod.
- 16 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru agor trafodaethau gyda Grwp Diwydiant Cymru i drafod y therapïau hynny lle mae angen titatriad dos neu gyrsiau byr i sicrhau fod pecynnau priodol ar gael.
- 17 Rhaid cynnwys y cyfleusterau a'r staff i ddarparu ar gyfer gwasanaethau ar gyfer cleifion gydag anghenion fferylliaeth arbennig yng nghynllun adeiladau yn y dyfodol lle'n briodol.
- 18 Dylid datblygu gwasanaethau rheolaeth meddyginiaethau i osodiadau gofal.
- 19 Dylid sefydlu Rhwydweithiau Clinigol Fferyllol.
- 20 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu rôl fferylliaeth wrth gyflwyno Iechyd y Cyhoedd.
- 21 Bydd angen i bob Ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol gael mynediad i wasanaeth Iechyd y Cyhoedd Fferyllol.
- 22 Dylid annog defnyddio contract rhwng y fferylllydd a'r unigolyn i gefnogi'r rôl iechyd y cyhoedd.
- 23 Hwyluso sefydlu Fforwm Cyhoeddus Fferylliaeth.
- 24 Bydd angen datblygu dyfais gynllunio cynhwysedd ar gyfer gwasanaethau fferylliaeth.
- 25 Datblygir matrices aeddfedrwydd rheolaeth glinigol erbyn Hydref 2002.
- 26 Dylai Fforwm Fferylliaeth Cymru archwilio'r cysyniad o Safonau Rheolaeth Risg a datblygu set addas o safonau ar gyfer gofal sylfaenol.
- 27 Mae angen ymgyfraniad fferyllwyr yng ngweithrediad pob Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yng Nghymru.
- 28 Llywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r achos dros fuddsoddiad pellach mewn swyddi Addysg a Hyfforddiant.

- 29 Dylai Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth Cymru annog defnydd portffolios datblygiad proffesiynol parhaol cyn cyflwyno'r cynllun datblygu portffolios datblygu proffesiynol parhaol cyn cyflwyno'r cynllun datblygu.
- 30 Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi fframwaith hyfforddi ar waith i sicrhau cyflwyno hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaol.
- 31 Datblygir rhaglen o addysg/hyfforddiant ffurfiol a datblygiad proffesiynol parhaol ar gyfer arbenigwyr mewn iechyd cyhoeddus fferyllol.
- 32 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gomisiynu rhaglen o ddatblygiad arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer fferyllwyr.
- 33 Dylai Ysgol Fferylliaeth Cymru gynnal trafodaeth gyda'r proffesiwn a Llywodraeth Cynulliad Cymru i lunio'r cwricwlwm hwn i ateb anghenion y gwasanaeth yng yng Nghymru yn y dyfodol.
- 34 Caiff digonolrwydd y ddarpariaeth fferylliaeth israddedig yng Nghymru ei adolygu yng nghyswllt gofynion y Strategaeth, a rhoddir ystyriaeth briodol i fesurau i gynyddu'r cynhwysedd hwn.
- 35 Cyflwynir system adrodd gwallau meddygol erbyn Ebrill 2003.
- 36 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sefydlu uned datblygu ymarfer fferylliaeth yng Nghymru.
- 37 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwilio maint presennol ymarfer i bennu meysydd ar gyfer ymchwil pellach yng Nghymru.
- 38 Bydd Grwp Diwydiant Cymru yn ystyried datblygu Gwobrwiad Ymchwil Ymarfer Fferylliaeth Cymru a mesurau eraill i feithrin gweithgaredd ymchwil ar y cyd.
- 39 Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cefnogaeth weinyddol i'r peirianwaith ymgynghorol proffesiynol.
- 40 Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru-gyfan i adolygu'r ymarfer o fewnforio meddyginiaethau.
- 41 Dylai Grwp Strategaeth Meddyginiaeth Cymru weithio gyda fferylliaeth gofal sylfaenol ac eilaidd i ymchwilio ffyrdd newydd o ddatblygu perthynas waith effeithlon gyda'r diwydiant fferylliaeth.
- 42 Bydd Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru yn trafod rheoli mynediad meddyginiaethau newydd

- 43 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo eisoes i ymestyn hawliau rhagnodi ategol i fferyllwyr erbyn 2004. Gobeithir y bydd statws rhagnod annibynnol yn dilyn.
- 44 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru osod rhaglen buddsoddiad mewn lleoedd hyfforddiant i ddarpar dechnegwyr.
- 45 Dylai Pwyllgor Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth Cymru sicrhau datblygu pecyn hyfforddiant strwythuredig ac wedi ei safoni ar gyfer staff cefnogaeth fferylliaeth.
- 46 Bydd y Cynulliad yn cynnal adolygiad trwyadl o brosesau cynllunio gweithlu yng Nghymru, ac yn gweithio gyda gwledydd eraill y Deyrnas Gyfunol i adolygu rolau
- 47 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru baratoi cyngor ac arweiniad i'r gwasanaeth
I hwyluso datblygu contractau cyflogaeth dyfeisgar.
- 48 Y Cynulliad i annog Ymddiriedolaethau i werthuso addasrwydd eu hadeiladau fferyllfa, ac i ddynodi cynlluniau datblygu priodol.
- 49 Dylid gwneud darpariaeth yn rhaglen gyfalaf Llywodraeth Cynulliad Cymru I ddarparu systemau dosbarthu wedi eu hawtomeiddio, uwchraddio neu amnewid fferyllfeydd ysbyty hyn.
- 50 Ymchwilio ymestyn y cynllun cost rhent i fferyllfeydd cymunedol.